**Pennaeth Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd**
**Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd**
**Prifysgol Caerdydd**

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer rôl Pennaeth Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd brofiad academaidd rhagorol, a phroffil ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn disgyblaeth berthnasol. Bydd ganddo sgiliau arwain a rheoli arbennig, profiad amlwg o ddarpariaeth strategol lwyddiannus, ynghyd â'r awdurdod, y presenoldeb a'r arbenigedd personol i gynrychioli'r Ysgol a chyflawni ei buddiannau cyffredinol.

## Manyleb yr Unigolyn

Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos gallu yn y meysydd canlynol:

*Arweinyddiaeth a Gweledigaeth*

- sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i gyfleu gweledigaeth glir, ddiddorol a sicrhau ymrwymiad eang ac ymgysylltiad gan amrywiaeth o staff a rhanddeiliaid;
- sgiliau meddwl a chynllunio strategol cadarn, gyda'r gallu i ddiffinio a chyfleu strategaeth a blaenoriaethau academaidd;
- y gallu i sicrhau ymgysylltiad eang ac ymrwymiad i weledigaeth o'r fath, ac ysgogi cydweithwyr i'w chyflawni;
- y gallu diamheuol i ddeall, rhagweld ac ymateb yn effeithiol i'r cyd-destun addysgol a gwleidyddol ehangach;
- y gallu diamheuol i ysgogi ac annog ymchwil newydd a mentrau sy'n ariannu ymchwil;
- y gallu diamheuol i nodi, cefnogi a datblygu aelodau allweddol o dîm rheoli'r Ysgol a chydweithwyr rhagorol.

*Hygrededd Academaidd*

- statws rhyngwladol personol a phrofiad diamheuol o ymchwil/ysgoloriaeth e.e. cyhoeddiadau ymchwil/allbynnau ysgolheigaidd, grantiau a dyfarniadau;
- enw da cenedlaethol/rhyngwladol am ragoriaeth wrth arwain yn academaidd naill ai ym meysydd addysgu/addysgeg a/neu ymchwil;
- y gallu i arwain a chyflwyno prosiectau cydweithredol yn llwyddiannus sy'n cynyddu capasiti ar draws meysydd ymchwil perthnasol;
- yn wybodus am lywodraethu clinigol ac ymchwil ac o feini prawf ymarfer clinigol da.

*Rheoli Adnoddau*

- dawn reoli gadarn, gan gynnwys y gallu i feddwl yn yr hirdymor a datblygu cynlluniau cyraeddadwy ynghyd â'r gallu i wneud penderfyniadau da wrth wynebu ansicrwydd neu risg;
- profiad amlwg o weithredu a rheoli newid;
- sgiliau rheoli cyllid ac adnoddau ar raddfa berthnasol, gyda phrofiad amlwg o ddarparu prosesau cyllidebol cymhleth;
- profiad blaenorol o arwain a rheoli uwch dîm;
- profiad amlwg o adeiladu strwythurau a sefydliadau academaidd llwyddiannus.

*Gallu Llysgenhadol*

- y gallu diamheuol i hyrwyddo ymchwil a phroffil dysgu ac addysgu ysgol academaidd ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- y gallu i rwydweithio'n eang a bod yn eiriolwr a llysgennad i Brifysgol Caerdydd, y Coleg a'r Ysgol yn genedlaethol a rhyngwladol, gan hyrwyddo a chynnal perthnasoedd a chynghreiriau allweddol;
- y gallu diamheuol i fynd ati'n gyflym i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae'r Brifysgol yn rhyngweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yng nghyd-destun creu polisïau lleol a chenedlaethol.

*Rhinweddau Personol*

- sgiliau cyfathrebu rhagorol, awdurdod naturiol ac ymrwymiad i geisio a defnyddio rhagoriaeth ym mhob maes;
- gallu amlwg i reoli amser a phwysau yn llwyddiannus, y cymeriad i fod yn hyblyg ac addasu, ac ymrwymiad i ddatblygiad personol;
- agwedd gadarnhaol at drefnu cynlluniau gradd israddedig ac ôl-raddedig, cytuno ar eu cynnwys a'u cyflwyno;
- cyfres o werthoedd personol cryf fydd yn cynnwys y gallu i gymhwyso rhinweddau gonestrwydd, cydraddoldeb, a thegwch; derbyn cyfrifoldeb am fynd ati i annog Ysgol amrywiol a chynhwysol;
- ffocws cadarn ar ganlyniadau ac arbenigedd mewn nodi, cynllunio, rheoli a darparu prosiect;
- tystiolaeth o sgiliau trafod, perthynol a dylanwadu da;
- gwerthfawrogiad o natur ddatganoledig Cymru, gan gynnwys yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant;
- mae'r gallu i siarad/deall Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu yn ddymunol.

## Disgrifiad o'r Swydd

Bydd Pennaeth yr Ysgol yn gyfrifol ac yn atebol i'r Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg, am reoli ac arwain yr Ysgol, gan gynnwys, *o fewn fframwaith polisïau a gweithdrefnau cyffredinol y Brifysgol*, bod yn atebol am adnoddau ariannol, adnoddau dynol, adnoddau ffisegol ac adnoddau eraill dirprwyedig yr Ysgol, paratoi holl flaengynlluniau a chyllidebau'r Ysgol, a chyfrannu at ddatblygiad strategol cyffredinol y Coleg a'r Brifysgol.

Mae'r **dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol** a ddirprwyir gan y Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg yn cynnwys:

(1) Aseinio dyletswyddau ymchwil, addysgu, gweinyddol ac eraill i staff Academaidd ac aelodau eraill o staff yr Ysgol;
(2) Hyrwyddo datblygiad dysgu ac addysgu, gan gynnwys eu hansawdd a sut i'w gwella, ac draws yr ystod o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r Ysgol ac Ysgolion eraill yn y Coleg;
(3) Annog a hyrwyddo staff a myfyrwyr yr Ysgol i gwblhau gwaith ymchwil;
(4) Annog a hyrwyddo arloesedd a throsglwyddo gwybodaeth fel y bo'n briodol yn yr Ysgol;

(5) Gwneud trefniadau ar gyfer dewis myfyrwyr i’w derbyn;
(6) Sicrhau cydymffurfiaeth yn yr Ysgol â rheoliadau’r Coleg/Prifysgol mewn perthynas â’r holl gyrff academaidd, cyflogaeth, ariannol, proffesiynol a statudol, gan gynnwys yr holl ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a materion eraill;
(7) Datblygu cynlluniau a strategaethau priodol ar gyfer yr Ysgol i’w cymeradwyo gan y Coleg a’r Brifysgol a rheoli’r Ysgol i gyflawni’r amcanion a nodir drwy hynny;
(8) Sicrhau, ar ran y Brifysgol, bod yr Ysgol yn cydymffurfio â’i rhwymedigaethau yn y gweithle o ran iechyd, diogelwch a lles staff a phersonau eraill neu anifeiliaid sydd yn yr Ysgol neu yr effeithir arnynt gan yr Ysgol neu safleoedd, offer a sylweddau yn yr Ysgol, gan gynnwys materion amgylcheddol;
(9) Cysylltu, lle y bo’n briodol, â’r holl gyrff proffesiynol perthnasol neu gyrff perthnasol eraill i sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer ymchwil, addysgu a hyfforddiant;
(10) Cynrychioli, neu drefnu cynrychiolaeth ar gyfer yr Ysgol, yn yr holl gyrff perthnasol, o fewn y Brifysgol ac yn allanol;
(11) cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais Pennaeth y Coleg.

Pennaeth yr Ysgol fydd yn rheoli penaethiaid adrannau neu is-adrannau yn yr Ysgol. Disgwylir i Bennaeth yr Ysgol wneud cyfraniad sylweddol at bennu strategaeth a chyfeiriad yn y Coleg.

Mae Pennaeth yr Ysgol yn aelod o Fwrdd y Coleg, felly mae ganddo’r cyfrifoldebau cyffredinol canlynol:

- rôl flaenllaw wrth ddatblygu a chyflwyno strategaeth y Brifysgol;
- arwain mewn meysydd o gyfrifoldeb a ddirprwywyd iddo, gan gynnwys cymryd rôl weladwy o ran arweinyddiaeth gorfforaethol ar y materion a bennwyd ac y cytunwyd arnynt gan y Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg;
- hyrwyddo’r Coleg o ran addysgu, ymchwil, arloesedd ac ymgysylltu;
- hyrwyddo buddiannau a gwerthoedd y Brifysgol yn fewnol ac yn allanol;
- chwarae rhan amlwg wrth recriwtio a phenodi staff o'r radd flaenaf i'r Ysgol;
- annog datblygiad staff er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y Brifysgol yng nghyd-destun ei datblygiad;
- annog a datblygu gweithgareddau rhyngddisgyblaethol rhwng Ysgolion;
- cymryd cyfrifoldeb am gadeirio neu gymryd rhan ym mhwyllgorau’r Brifysgol yn ogystal â chwarae rhan yng ngweithgareddau seremonïol y Brifysgol, yn ôl yr angen, gan gynnwys seremonïau graddio;
- annog a gwobrwyo ymchwil, rhagoriaeth academaidd a chyfranogiad ymgynghorol ledled y Brifysgol;
- chwarae rôl weithredol ym Mwrdd y Coleg, gan gynorthwyo’r Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg i gyflawni nodau’r Coleg a chyfrannu at waith cynllunio’r Coleg a’r gwaith o lunio polisïau a gweithdrefnau;
- ymateb i faterion a digwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar weithgareddau ac enw da’r Brifysgol mewn modd sy'n rheoli ac yn lleihau'r risg i'r Brifysgol;
- cyfrannu at ddatblygu a phrofi cynlluniau rheoli argyfwng a risg y Brifysgol a ddefnyddir mewn argyfwng neu os ceir digwyddiadau difrifol annisgwyl;

- hyrwyddo lles yr holl staff a myfyrwyr, gan feithrin diwylliant o barch ym mhob agwedd ar waith ac arwain, cefnogi a bod yn sensitif i wahanol anghenion myfyrwyr beth bynnag fo'u lleoliad neu eu dull astudio;
- hyrwyddo'r Brifysgol fel lle o fri rhyngwladol i astudio, ymchwilio a gweithio ynddo ac annog cyfnewid a chydweithio rhyngwladol;
- meithrin cysylltiadau effeithiol a chynhyrchiol â'r rhai sydd â dylanwad o bwys ym meysydd llywodraeth, busnes a chyrff proffesiynol;
- mynd ati i hyrwyddo systemau a strwythurau traws-sefydliadol (boed yn ymwneud ag ymchwil/rhaglenni academaidd/materion portffolio neu weinyddiaeth);
- cynrychioli'r Brifysgol fel sy'n ofynnol ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol; ac
- ymgymryd â dyletswyddau eraill o'r fath fel sy'n ofynnol gan y Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg.

*Perthnasoedd Pwysig*

| | |
|---|---|
| Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg | Byddwch yn atebol i'r Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg, fydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod gan bob Pennaeth Ysgol gyfres gadarn o amcanion, proses arfarnu perfformiad a chynllun datblygiad personol. |
| Penaethiaid Ysgol eraill yn y Coleg | Bod yn aelod cyfartal o Fwrdd y Coleg, cydweithio â'r Rhag Is-ganghellor, Pennaeth y Coleg, Penaethiaid Ysgol eraill ac Ysgrifennydd y Coleg i weithredu strategaeth a pholisïau Prifysgol Caerdydd yn gyson. |
| Mewnol: | Bwrdd y Coleg<br>Ysgrifennydd y Coleg<br>Y Senedd<br>Y Cyngor<br>Y Llys<br>Penaethiaid Colegau ac Ysgolion a Chyfarwyddwyr Sefydliadau Ymchwil y Brifysgol<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymorth a Phroffesiynol<br>Deoniaid<br>Staff<br>Myfyrwyr |
| Allanol: | Llywodraeth Cymru<br>Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Cyngor Caerdydd<br>Prifysgolion gyda phartner yn y DU ac yn rhyngwladol<br>Cynghorau Ymchwil a chyllidwyr ymchwil eraill<br>Cwmnïau diwydiannol a masnachol.<br>Cyrff y GIG a sefydliadau sector cyhoeddus eraill |